



YSGOL GYMRAEG ABERYSTWYTH



• Cymreictod • Parchu ein gilydd • Gwneud ein gorau glas •

ysgolgymraeg.cymru



YFORY : Parêd a Thwmpath Santes Dwynwen

Mae gwahoddiad i bawb ymuno â ni yn y parêd yfory (dydd Sadwrn 24^{ain} o Ionawr) am 1:45 ger y cloc. Gwisgwch yn lliwgar a cherddwch gyda ni drwy'r dre! Gweler y poster ar waelod y llythyr hwn ar gyfer darllen y manylion yn llawn.

TOMORROW : Santes Dwynwen Twmpath and Parade

Everyone is warmly invited to join us in the parade tomorrow (Saturday 24th January) meeting at 1:45pm by the clock. Wear bright colours and walk with us through the town! Please see the poster at the end of this letter for full details.

Dyddiad cau Dawns ac Offerynnol



Urdd

Mae dyddiad cau cofrestru ar gyfer cystadlu yn y cystadlaethau dawns ac offerynnol yr **Urdd** ddydd Llun y 26^{ain} o Ionawr. Yr ysgol sy'n cofrestru'r cystadlaethau torfol ee Cerddorfa, Grŵp Dawns Aml-gyfrwng a Chreadigol ac ati, ond chi fel rhieni a gwarcheidwaid sydd angen cofrestru unigolion. Os ydych yn ansicr cysylltwch â'r ysgol am gyngor.

Dance and Instrumental closing dates

The closing date for registration to compete in the Urdd dance and instrumental competitions is Monday, 26th January.

The school registers the group competitions, e.g. Orchestra, Multimedia and Creative Dance Group, etc., but parents and guardians are responsible for registering individuals. If you are unsure, please contact the school for advice.

PC Hannah - Schoolbeat



Bydd ymweliadau PC Hannah yn parhau y tymor hwn, gan ymweld â dosbarthiadau Blwyddyn 5 ar ddydd Mawrth wythnos nesaf, y 27^{ain} o Ionawr.


Ry'n ni'n ddiolchgar iawn am fewnbwn PC Hannah i'n sesiynau iechyd a lles yn yr ysgol.

PC Hannah - Schoolbeat

PC Hannah's visits will continue this term, with visits to Year 5 classes taking place next Tuesday, the 27th of January.

We are very grateful for PC Hannah's contribution to our health and wellbeing sessions at the school.

Pont Teithio Llesol Plasrug



Mae'r ymgynghoriad ynghylch pont newydd ar agor tan Chwefror 25^{ain} eleni. Ga i'ch hannog chi i rannu eich barn ynghylch yr opsiynau os gwelwch yn dda.

Gellir gweld rhagor o fanylion am y cynigion a'r digwyddiad ymgynghori hwn ar wefan y Cyngor:
📍 [Cynllun Pont Plasrug - Cyngor Sir Ceredigion](#)

Plasrug Active Travel Bridge

The consultation regarding the new bridge is open until 25th February this year. I would encourage you to share your views on the proposed options, please.

Further details of the proposals and this consultation event can be viewed on the Council's website: 📄 [Plasrug Bridge Scheme - Ceredigion County Council](#)



Yr Eisteddfod Ysgol

Byddwn yn cynnal yr Eisteddfod Ysgol ar ddydd Gwener yr 13^{eg} o Chwefror yn neuadd yr ysgol. Mae'n eisteddfod gynhwysol – bydd cyfle i **bawb** gymryd rhan ym **mhob** cystadleuaeth sydd ar gael i'w hoedran nhw.

Bydd y rhagbrofion ar gyfer llefaru a chanu yn digwydd ar ddydd Llun yr 9^{fed}, a'r rhagbrawf offerynnol ar ddydd Mawrth y 10^{fed} o Chwefror. Bydd geiriau'r caneuon a'r darnau llefaru ac ati yn cael eu hanfon adref atoch gyda'r plant yn fuan, os nad yn barod.

Trefniadau Meithrin – bydd llythyr ar wahân yn eich cyrraedd gan staff y Meithrin. Gan fod y plant yn newydd i'r ysgol byddant yn cael eu gosod mewn tî, gyda phlant y prynhawn yn mynychu yn y bore ar ddiwrnod yr Eisteddfod er mwyn perfformio gyda'u cyfoedion. Bydd mwy o wybodaeth am yr Eisteddfod Ysgol yn eich cyrraedd yn nes at yr amser.

Eisteddfod yr Urdd

Mae Eisteddfod yr Urdd yn eisteddfod **ar wahân** i'r Eisteddfod Ysgol. Dydyn nhw ddim yn gysylltiedig â'i gilydd.

Mae yna dair lefel o gystadlu gyda'r Urdd, gan gychwyn ar lefel Cylch Ystwyth yn Chwefror, yna lefel Rhanbarthol Ceredigion ym mis Ebrill, gyda'r uchafbwynt yn digwydd yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Ynys Môn 2026 ar ddiwedd mis Mai.

- Mae'r ysgol yn cystadlu mewn cystadlaethau torfol megis y Côr, Cerddorfa, Grŵpiau Dawnsio ac ati. Ry'n ni fel ysgol yn cofrestru'r cystadlaethau hyn.
- **Os hoffech i'ch plentyn gystadlu'n unigol** (canu, llefaru, offerynnol, dawns) **mae angen i chi gofrestru arlein** gan ddilyn y ddolen isod. Dyddiadau cau: Ionawr 26^{ain} ar gyfer offerynnol a dawns; Chwefror 9^{fed} ar gyfer canu a llefaru; Mawrth 2^{ail} ar gyfer Gwaith Cartref.
- Mae'n rhaid i blant fod yn aelodau o'r Urdd cyn medru cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd.

Cofrestru ar gyfer cystadlu:

[Cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd 2026 | Urdd Gobaith Cymru](#) 

Rydym yn parhau i wneud dewisiadau ar gyfer y cystadlaethau torfol. Er gwybodaeth bydd y cystadlaethau canlynol yn ymarfer fel a ganlyn:

- **Côr, Cerddorfa, Grŵp Llefaru, Ymgom, Dawnsio Aml gyfrwng, Dawnsio Creadigol** : Yn ystod oriau ysgol (naill ai cyn ysgol, amser chwarae neu amser cinio; gyda'r dawnsio yn digwydd ar ddydd Gwener yn ystod y sesiynau Addysg Gorfforol)

Cân Actol : Pob prynhawn dydd Mercher ar ôl ysgol rhwng 3:30 a 4:45yp yn neuadd yr ysgol, yn cychwyn wythnos nesaf.

The School Eisteddfod

The School Eisteddfod will be held on Friday the 13th of February in the school hall.

*It is an inclusive eisteddfod - **everyone** will have the opportunity to participate in **every** competition available for their age.*

The prelim for reciting and singing will take place on Monday the 9th, and the instrumental prelim on Tuesday the 10th of February.

The words to the songs and reciting pieces will be sent home with the children soon, if not already.

Meithrin arrangements - a separate letter will be sent to you from the Nursery staff. As the children are new to the school, they will be placed in a house team, with the afternoon children attending in the morning on the day of the Eisteddfod in order to perform with their peers.

More information about the School Eisteddfod will reach you nearer the time.

Urdd Eisteddfod

*The Urdd Eisteddfod is a **separate** eisteddfod from the School Eisteddfod. They are not connected to each other.*

There are three levels of competition with the Urdd, starting at Aberystwyth Area level in February, then Ceredigion Regional level in April, with the finals taking place at the Urdd National Eisteddfod Ynys Môn 2026 at the end of May.

- *The school competes in group competitions such as the Choir, Orchestra, Dance Groups etc. We register these competitions as a school.*
- *If you would like your child to compete **individually** (singing, reciting, instrumental, dance) **you need to register online** by following the link below. Closing dates: January 26th for instrumental and dance; February 9th for singing and reciting, March 2nd for Homework.*
- *Children must be members of the Urdd to compete in the Urdd Eisteddfod.*


Register to compete here:

[Competing Eisteddfod yr Urdd 2026 | Urdd Gobaith Cymru](#) 

We are continuing to choose members for the group competitions. For your information the following competitions will practice as follows:

- **Choir, Orchestra, Recitation group, Ymgom, Multi-media Dancing, Creative Dancing**: During school hours (either before school, playtime or lunchtime; with the dancing taking place on Fridays during the P.E sessions)

Cân Actol (Action Song) : Every Wednesday afternoon after school between 3:30 and 4:45pm in the school hall, starting next week.





Digwyddiadau a llwyddiannau

Cofiwch fod gan yr ysgol dudalen Instagram ar gyfer rhannu lluniau a newyddion yr ysgol. O bryd i'w gilydd bydd y timau chwaraeon wedi cystadlu neu bydd canlyniadau eisteddfodol ac ati i'w rhannu; yn ogystal â gweithgareddau'r wythnos yn y dosbarth.

📱 [Instagram](#) – Ysgol Gymraeg


📱 [Instagram](#) – C.Rh.A

Events and achievements

Remember that the school has an Instagram page for sharing school photos and news. From time to time the sports teams will have competed or there will be eisteddfod results to share etc; as well as the week's activities in class.

📱 [Instagram](#) – Ysgol Gymraeg

📱 [Instagram](#) – P.T.A



Calendr Hanner Tymor

Dyma'r ddolen i'r [Calendr Hanner Tymor](#) ar gyfer yr hanner tymor hwn. Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

Half term Calendar

Here is the link to the [Half Term Calendar](#) for this half term. A link to the calendar is included in each letter, and it lives permanently on the school's website.

Dyddiadau pwysig i ddod:

- Diwrnod Eisteddfod Ysgol : Chwefror 13^{eg}
- Diwrnod cau H.M.S : Mawrth 6^{ed}
- Eisteddfod Gylch : Mawrth 25^{ain}
- Eisteddfod Rhanbarth : Ebrill 18^{fed}

Upcoming important dates:

- School Eisteddfod : February 13th
- I.N.S.E.T school closure day : March 6th
- Area Eisteddfod : March 25th
- County Eisteddfod : April 18th

Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.
If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.

Yn gywir,
Gareth L James
Pennaeth / Headteacher
23/01/2026
📧 www.ysgolgyfraeg.cymru



PARÊD A THWMPATH
SANTES DWYNWEN
TWMPATH AND PARADE
24/1/26 2PM

Parêd / Parade : top y dre' / top of town

CROESO I BAWB!!! / ALL WELCOME!!!
DEWCH I DDATHLU YN EICH LLIWIAU LLACHAR!!!
JOIN US TO CELEBRATE IN YOUR BRIGHTEST COLOURS!!!

TWMPATH:
BANDSTAND
 Ar ôl y Parêd / After the Parade

Funded by UK Government
 West of Arannau gan Llywodraeth y DU

Cynghor Ceredigion
 County Council

CYNGOR TREF
 ABERYSTWYTH
 TOWN COUNCIL

GŴYL
 CARIAD
 20
 25

CYMRU Y CARO
 Wales - the heart of the world



EISTEDDFODAU RHANBARTH
CEREDIGION

Eisteddfodau	Dyddiad Date	Lleoliad Location
Eisteddfod Offerynnol	26-02-2026	Ysgol Dyffryn Aeron
Eisteddfod Uwchradd	10-03-2026	Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth
Eisteddfod Ddawns a Theatr	18-03-2026	Ysgol Bro Teifi
Eisteddfod Cylch Teifi	23-03-2026	Ysgol Uwchradd Aberteifi
Eisteddfod Cylch Aeron	24-03-2026	Ysgol Henry Richard
Eisteddfod Cylch Ystwyth	25-03-2026	Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth
Eisteddfod Cynradd	18-04-2026	Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth

Dyddiadau Cau Cofrestru Cenedlaethol/National Deadlines:

26/01/26 Dawns & Offerynnol / Dance and Instrumental
 09/02/26 Cyst. Llyfyan & Maes / Stage Competitions
 02/03/26 Cyst. 19-25 oed + Gwaith Cartref + Eisteddfod T / 19-25 yr. old comps. + homework + Eisteddfod T

Urdd Ceredigion @urddceredigion urdd.cymru



THE ROYAL MINT MUSEUM

CYSTADLEUAETH STORI FER

CYFLE EURAIDD I AWDURON IFANC!

Rydym yn awyddus i blant **7-11 oed** ysgrifennu stori am **AUR** (hyd at **500 gair**). Bydd yr enillydd yn cael **darn aur** a **£5,000** ar gyfer ei ysgol neu ei lyfrgell, a bydd y **stori'n cael ei darlunio** gan arlunydd.

Gellir cyflwyno straeon rhwng **16 Chwefror** ac **17 Ebrill 2026**.

www.royalmintmuseum.org.uk
storycompetition@royalmintmuseum.org.uk



THE ROYAL MINT MUSEUM

SHORT STORY COMPETITION

A GOLDEN OPPORTUNITY FOR YOUNG WRITERS!

We are asking **7-11-years-olds** to write a story about **GOLD** using no more than **500-words**. The winner will receive a **gold coin**, **£5,000** for their school or local library, and their **story illustrated** by an artist.

Stories can be submitted between **16 February - 17 April 2026**.

www.royalmintmuseum.org.uk
storycompetition@royalmintmuseum.org.uk